Senedd Cymru
Senedd Cymru

14eg Cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau - Grŵp Cyswllt y DU

19-20 Hydref 2026

Adroddiad Cryno



1. Pwyllgor y Rhanbarthau - Grŵp Cyswllt y DU

Mae Pwyllgor y Rhanbarthau - Grŵp Cyswllt y DU yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Bwyllgor y Rhanbarthau yr UE ac aelodau o ddeddfwrfeydd datganoledig a chymdeithasau llywodraeth leol y DU. Fe'i sefydlwyd ar ôl Brexit i gynnal cysylltiadau rhwng rhanbarthau ac awdurdodau lleol yn yr UE â'r deddfwrfeydd datganoledig ac awdurdodau lleol yn y DU. Ei brif nodau yw:

- Gweithredu fel fforwm ar gyfer parhau â deialog a phartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthol yr UE a'r DU;
- Rhoi cyfle i aelodau drafod materion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE;
- Cefnogi cydweithrediad trawsffiniol a thiriogaethol;
- Gweithredu fel fforwm i drafod meysydd o diddordeb cyffredin a chydweithrediad y DU a'r UE mewn fforymau rhyngwladol.

Cynrychiolir y Senedd ar y Grŵp Cyswllt gan Sera Evans AS, Cadeirydd Pwyllgor y Blynyddoedd Cynnar, Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac Elwyn Vaughan AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd.

Cynhaliwyd 14eg cyfarfod y Grŵp Cyswllt yn Belfast ar 19-20 Hydref. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion allweddol a drafodwyd gan yr Aelodau yn y Grŵp Cyswllt.

2. Y sefyllfa ddiweddaraf o ran y berthynas rhwng y DU a'r UE: 'Profiad ymarferol' o gyflawni ar lawr gwlad

Cynhaliodd y Grŵp Cyswllt drafodaeth gyda Dunstan Hadley, Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth y DU, Lisa Hemmer, Cwnselydd Gwleidyddol, Dirprwyaeth yr UE i'r DU a'r Athro Katy Hayward, Prifysgol y Frenhines, Belfast ar gyflwr y trafodaethau rhwng y DU a'r UE cyn uwchgynhadledd y DU a'r UE a drefnwyd ar gyfer 20 Tachwedd.

Clywodd y Grŵp Cyswllt fod 'cynnydd gwirioneddol' wedi bod o ran dod i gytundeb ar feysydd pellach o gydweithrediad rhwng y DU a'r UE ond bod llawer iawn o waith i'w wneud i gwblhau cytundebau ar feysydd allweddol cyn yr uwchgynhadledd. Clywodd am uchelgais gan y ddwy ochr i gwblhau trafodaethau ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol, masnachu allyriadau a chynllun profiad ieuenctid ac i fwrw ymlaen â thrafodaethau ynghylch y posibilrwydd y bydd y DU yn ymuno â marchnad drydan fewnol yr UE.

O ran diogelwch ac amddiffyn, pwysleisiodd siaradwyr bwysigrwydd cydweithio agos parhaus i fynd i'r afael â'r 'materion diogelwch difrifol' y mae cyfandir Ewrop yn eu hwynebu. Mae'r DU yn gobeithio y gall fod yn rhan o'r benthyciad cymorth i Wcráin.

Y tu hwnt i'r trafodaethau technegol manwl, cadarnhawyd y bydd Prif Weinidog y DU yn nodi opsiynau ar gyfer y dyfodol ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE o amgylch yr uwchgynhadledd.

Pwysleisiodd aelodau'r Grŵp Cyswllt mai'r awdurdodau lleol, rhanbarthol a datganoledig sy'n gyfrifol am weithredu llawer o'r cytundebau presennol, a chytundebau'r dyfodol, rhwng y DU a'r UE. Fe wnaethant alw am well ymgynghori a chyfle i'w lleisiau nhw gael eu clywed yn y trafodaethau parhaus, gan nodi y dylai eu profiad ar lawr gwlad fod yn rhan allweddol o'r trafodaethau. Pwysleisiwyd y rôl hanfodol y gallai rhai cyfranogwyr ar y lefel hon ei chwarae wrth ailadeiladu'r cydweithrediad rhwng rhanbarthau a dinasoedd yn y DU a'r UE.

Tynnodd Elwyn Vaughan AS sylw at y gwahaniaeth rhwng ymgynghori gwirioneddol a rhoi gwybod i lywodraethau datganoledig am benderfyniadau ar ôl i'r manylion gael eu cwblhau.

Disgrifiwyd y broses ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig yn y cyfnod cyn yr uwchgynhadledd, fel proses fanwl, ond cydnabuwyd bod angen rhagor o ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch sut y bydd cytundebau yn cael eu gweithredu'n ymarferol.



Derbyniwyd fod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i fecanweithiau ymgynghori digonol ar gyfer awdurdodau lleol y DU a'r UE. Dywedodd yr Athro Katy Hayward ei bod yn 'gwneud synnwyr perffaith' i awdurdodau datganoledig, lleol a rhanbarthol gael eu clywed yn y trafodaethau hyn.

Clywodd y Grŵp Cyswllt gan yr Athro Hayward am effeithiau gweithredu Fframwaith Windsor a Brexit yng Ngogledd Iwerddon. Er bod Fframwaith Windsor wedi lleihau rhai o'r rhwystrau ymarferol sy'n wynebu masnachwyr a phobl yng Ngogledd Iwerddon, pwysleisiodd ei fod yn parhau i fod yn ffynhonnell anghydfod ac anniddigrwydd.

O ran mentrau sydd eisoes wedi'u cytuno, croesawyd dychweliad y DU i Erasmus, sef rhaglen gyfnewid ddysgu ryngwladol yr UE, fel cam cadarnhaol tuag at ailadeiladu perthnasoedd rhwng pobl ifanc a dysgwyr yn y DU a'r UE. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan aelodau'r Grŵp Cyswllt nad oes digon o waith paratoi wedi'i wneud ar gyfer cyflwyno Erasmus yn llwyddiannus yn 2027.

Codwyd pryder ynghylch colli arbenigedd yn y DU a'r diffyg ymwybyddiaeth ar lefel leol am weld y rhaglen yn dychwelyd.

3. Dimensiwn lleol a rhanbarthol y berthynas rhwng yr UE a'r DU

Bydd Pwyllgor y Rhanbarthau yn ystyried ac yn pleidleisio ar farn ynghylch Dimensiwn Lleol a Rhanbarthol y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn ystod y misoedd nesaf. Cynhaliodd aelodau'r Grŵp Cyswllt sesiwn gyfnewid barn gyda Gillian Coughlan, Pennaeth dirprwyaeth Iwerddon i Bwyllgor y Rhanbarthau, sef y rapporteur ar gyfer y farn.



Nododd Aelodau'r Grŵp Cyswllt feysydd allweddol ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol, rhwystrau i ymgysylltu pellach a chamau allweddol y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain. Fe wnaethant bwysleisio unwaith eto yr angen i awdurdodau datganoledig, rhanbarthol a lleol gael eu cydnabod gan y DU a'r UE fel partneriaid cyflenwi strategol allweddol.

Roedd galwad allweddol gan yr Aelodau am gytuno ar fesurau ymarferol sy'n gwella bywydau pobl yn uniongyrchol ac sy'n esgor ar ganlyniadau amlwg. Mae meysydd posibl ar gyfer cydweithredu yn cynnwys gwaith ar ddiogelwch bwyd, arferion gorau ynghylch tollau, diogelwch ynni a'r newid gwyrdd, cysylltedd a logisteg morol, addysg ac ysgolion. Codwyd y mater o golli cydweithio yn dilyn ymadawiad y DU o Interreg, rhaglen ariannu trawsffiniol yr UE, yn ogystal â'r angen am arian newydd i gynnal gwaith ymgysylltu.

Gofynnodd y rapporteur hefyd i Sera Evans AS ac Elwyn Vaughan AS gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Yn eu tystiolaeth, fe wnaethant dynnu sylw at waith pwyllgorau blaenorol y Senedd ar y materion hyn, a nodwyd bod pwyllgorau'r Seithfed Senedd, newydd ddechrau ar y gwaith o ystyried y materion hyn yn fanwl.

4. Cydweithio trawsffiniol mewn addysg uwch rhwng sefydliadau'r DU a'r UE

Siaradodd Dr Anthony Soares, Cyfarwyddwr y Ganolfan Cydweithredu Trawsffiniol a Catriona McCarthy, Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro, y British Council ag aelodau'r Grŵp Cyswllt am gydweithredu ym maes addysg uwch a chyfranogiad y DU i gynllun Erasmus 2027. Mae'r British Council wedi'i benodi'n gydlynydd cenedlaethol y DU ar gyfer y cynllun a bydd yn cefnogi'r gwaith o'i gyflwyno yn y DU.

Tynnodd y siaradwyr sylw at bwysigrwydd cydweithio rhwng addysg ac ymchwil i feithrin ymddiriedaeth hirdymor. Nododd Catriona McCarthy rai o'r newidiadau allweddol i gynllun Erasmus ar gyfer 2027 a dywedodd fod ymgysylltu â'r sector wedi digwydd.

Er bod yr Aelodau wedi rhoi croeso cynnes i'r ffaith bod y DU yn dychwelyd i'r cynllun Erasmus, ailadroddwyd pryder am ddiffyg gallu a gwybodaeth sefydliadol yn y DU i fynd ati'n llwyddiannus i gyflwyno a defnyddio Erasmus yn gyflym. Tynnodd yr Aelodau sylw at yr anhawster o weld y DU yn ymuno âr rhaglen am un flwyddyn yn unig yn hytrach na'r cyfnod rhaglennu llawn o chwe blynedd. Nododd yr Aelodau na fyddai blwyddyn yn rhoi ddigon o amser a diogeledd i'r rhai sy'n awyddus i feithrin partneriaethau. Roedd yr Aelodau am i Lywodraeth y DU ystyried pa mor anodd yw'r amserlenni wrth iddyn nhw gloriannu gwerth am arian y cynllun ar ôl un flwyddyn yn unig.



Tynnodd Sera Evans AS sylw at lwyddiant Taith, cynllun dysgwyr rhyngwladol Llywodraeth Cymru. wrth gyrraedd grwpiau difreintiedig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol nad ydynt wedi elwa o Erasmus. Roedd yn hanfodol nad oedd Taith yn cael ei golli wrth ganolbwyntio ar Erasmus yn unig. Tynnodd Catriona McCarthy sylw at gyfatebolrwydd Taith ac Erasmus.

Materion eraill a drafodwyd oedd pwysigrwydd rhaglen ymchwil Horizon i brifysgolion y DU a'r UE. Roedd yr Aelodau hefyd yn eiriol dros gydweithio pellach ar bynciau addysg galwedigaethol a phrinder sgiliau ledled y DU a'r UE.

Croesawyd y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ar gynllun cyfnewid ieuenctid.

Roedd mater ffioedd dysgu cartref i fyfyrwyr yr UE sy'n dymuno astudio yn y DU yn thema allweddol yn y sgwrs. Nodwyd y gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr o'r UE sy'n astudio yn y DU ar ôl Brexit, ond, tynnodd Aelodau'r DU sylw at yr anawsterau ariannol sy'n wynebu sector addysg uwch y DU.

Tynnodd Sera Evans AS sylw hefyd at y ffaith bod penderfyniadau ar ffioedd dysgu wedi'u datganoli ac felly pwysleisiodd y bydd angen cytundeb y llywodraethau datganoledig ar unrhyw gytundeb a wneir rhwng y DU a'r UE.



5. Ymweliad Astudio: Black Mountain Shared Space

Aeth Aelodau'r Grŵp Cyswllt ar ymweliad astudio â'r Black Mountain Shared Space yn Belfast i ddysgu am waith y ganolfan draws-gymunedol hon, effaith rhaglenni heddwch yr UE yng Ngogledd Iwerddon, a gwaith Springboard Opportunities, sef rhaglen sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon. Clywsant hefyd am y defnydd o'r rhaglen Erasmus gan Goleg Rhanbarthol De-ddwyrain Gogledd Iwerddon i gefnogi hyfforddiant athrawon a chymwysterau galwedigaethol.

Roedd yr ymweliad astudio yn gyfle i ddysgu am strwythur a dylanwad cyffredinol y rhaglen heddwch, yr effaith y mae'r sefydliadau a ariennir gan y rhaglen wedi'i gael ar eu cymunedau a'r heriau parhaus ar lawr gwlad. Nododd Aelodau'r Grŵp Cyswllt fod llawer o'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion da a ddatblygwyd drwy'r rhaglenni hyn, yn berthnasol, ac yn bwysig, ar gyfer mynd i'r afael â chydlyniant cymunedol mewn rhannau eraill o'r DU a'r UE.